

NOSC 2026 Rhif 28

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Traffordd yr M4
(Cyffordd 41 (Cyfnewidfa
Pentyla) i Gyffordd 38
(Cyfnewidfa Margam), Castell-
nedd Port Talbot) (Gwaharddiad a
Chyfyngiad Traffig Dros Dro)
2026

Gwnaed 16 Chwefror 2026

Yn dod i rym 23 Chwefror 2026

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o draffordd yr M4, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarn penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 41 (Cyfnewidfa Pentyla) i Gyffordd 38 (Cyfnewidfa Margam), Castell-nedd Port Talbot) (Gwaharddiad a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2026 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 23 Chwefror 2026.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

NWSI 2026 No. 28

ROAD TRAFFIC, WALES

The M4 Motorway (Junction 41
(Pentyla Interchange) to Junction
38 (Margam Interchange),
Neath Port Talbot)
(Temporary Traffic
Prohibition and Restriction)
Order 2026

Made 16 February 2026

Coming into force 23 February 2026

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant lengths of the M4 motorway, are satisfied that traffic on a specified length of the motorway should be prohibited and/or restricted because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Title and commencement

1. The title of this Order is the M4 Motorway (Junction 41 (Pentyla Interchange) to Junction 38 (Margam Interchange), Neath Port Talbot) (Temporary Traffic Prohibition and Restriction) Order 2026 and this Order comes into force on 23 February 2026.

Interpretation

2. In this Order—

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;
- (b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—
 - (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
 - (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 23 Chwefror 2026 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y draffordd” (“*the motorway*”) yw Traffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur ar y darn o'r draffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

Cyfyngiad

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r draffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

5.—(1) Nid yw'r gwaharddiad na'r cyfyngiad yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means:

- (a) any vehicle being used by the emergency services for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(1) or in connection with the works giving rise to this Order;
- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—
 - (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
 - (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the motorway” (“*y draffordd*”) means the M4 London to South Wales Motorway;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 20:00 hours on 23 February 2026 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are permanently removed.

Prohibition

3. No person may, during the works period, drive any motor vehicle on the length of the motorway specified in Schedule 1 to this Order.

Restriction

4. No person may, during the works period, drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 40 miles per hour on the length of the motorway specified in Schedule 2 to this Order.

Application

5.—(1) The prohibition and restriction in articles 3 and 4 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(1) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(1) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Atal Dros Dro

6. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darn perthnasol o'r draffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 4 yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafndiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 16 Chwefror 2026

N Hunter

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

ATODLEN 1 Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Y darn o ffordd ymadael tua'r dwyrain y draffordd wrth Gyffordd 40 (Cyfnewidfa Tai-bach) sy'n ymestyn o brif gerbyttfordd tua'r dwyrain y draffordd hyd at y man lle y mae'n cysylltu â cherbyttfordd gylchredol Cylchfan Tan y Groes.

ATODLEN 2 Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro

Y darn o gerbyttfordd tua'r dwyrain y draffordd sy'n ymestyn o bwynt 400 o fetrau i'r gogledd-orllewin o'r man lle y mae ffordd ymadael tua'r dwyrain Cyffordd 40 yn gadael prif gerbyttfordd tua'r dwyrain y draffordd hyd at bwynt 400 o fetrau i'r de-ddwyrain o'r man lle y mae ffordd ymadael tua'r dwyrain Cyffordd 40 yn gadael prif gerbyttfordd tua'r dwyrain y draffordd.

(2) No speed limit imposed by this Order applies to an exempted vehicle.

Suspension

6. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the relevant length of the motorway specified in Schedule 2 to this Order are suspended during such times as the restriction specified in article 4 is in operation.

Duration of this Order

7. The maximum duration for this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated 16 February 2026

N Hunter

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

SCHEDULE 1 Temporary Prohibition of Vehicles

The length of the eastbound exit slip road of the motorway at Junction 40 (Tai-bach Interchange) that extends from the eastbound main carriageway of the motorway to where it connects with the circulatory carriageway of Tan y Groes Roundabout.

SCHEDULE 2 Temporary 40 mph Speed Limit

The length of the eastbound carriageway of the motorway that extends from a point 400 metres north west of where the Junction 40 eastbound exit slip road leaves the main eastbound carriageway of the motorway to a point 400 metres south east of where the Junction 40 eastbound exit slip road leaves the main eastbound carriageway of the motorway.